1644

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Mynydd Llandygái, Gwynedd



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



*Mae'r ddwy stryd a'r plotiau i'w gweld yn glir yn yr olygfa hon o'r awyr, yn edrych i'r gogledd orllewin*

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Mynydd Llandygái, Gwynedd

Prosiect Rhif G2675

Rhif yr Adroddiad 1644

Paratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd

Mehefin 2023

Ysgrifennwyd gan Andrew Davidson a Joanna Davidson

**Cyhoeddwyd gan**
**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**
**Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT**

**Published by**
**Gwynedd Archaeological Trust Craig Beuno, Garth Road, Bangor, Gwynedd LL57 2RT**

Cadeirydd/ Chair — David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA
Prif Archaeolegydd/ Chief Archaeologist — Andrew Davidson, BA, MCIfA, FSA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)
Gwynedd Archaeological Trust is both a Limited Company (Reg No. 1180515) and a Charity (Reg No. 508849)

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad** 6

**1.2 Cydnabyddiaeth**

**2 Hanes cefndirol** 8

**3 Cymeriad yr anheddle** 8

**3.1 Lleoliad**

**3.2 Cymeriad**

**3.3 Dynodiadau**

**4 Disgrifiad o'r Ardal Gadwraeth** 10

**5 Gwelliannau a argymhellir** 14

**6 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth** 16

**7 Ffynonellau** 16



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Gwynedd Archaeological Trust

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd L57 2RT

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau gwerthusiad Ardal Gadwraeth Mynydd Llandygái, i'r gorllewin o Fethesda. Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) sydd wedi ymgymryd â'r gwerthusiad ar ran Cyngor Gwynedd.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n ddymunol eu cadw a'u gwella er mwyn eu dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan y dylai awdurdodau lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn yr ardal yma gan ychwanegu mwy o gadwraeth ble bo'n briodol.

Mae'r gwerthusiad yn arfarnu'r ardal gadwraeth bresennol, gan ddarparu trosolwg o'i hanes, pensaernïaeth a'i chyflwr, ac yn awgrymu argymhellion priodol.


## 1.2 Cydnabyddiaeth

Eryl Williams a Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd, gychwynnodd y prosiect, gan ddarparu cymorth hael a gwybodaeth i helpu gyda'r gwaith. Bu Dr John Llywelyn Williams hefyd yn garedig iawn yn rhoi cymorth a chyngor yn ystod y prosiect.



01
Lleiniau gardd tu ôl i Dan y Bwlch wedi eu gwahanu gan grawiau. Edrych i'r gogledd-orllewin.

## 02
*Map o'r ardal gadwraeth*




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

Ardal Gadwraeth Bresennol

Adeilad Rhestredig

Ardal Gadwraeth ychwanegol arfaethedig

**Delwedd 2**

**Ardal Gadwraeth Mynydd Llandygai**

# 2. Hanes cefndirol

Hyd nes dyfodiad chwareli llechi ar raddfa fawr i'r ardal roedd y mynydd yn rostir digroeso gyda thystiolaeth o grwpiau cytiau cyn hanesyddol, llociau a charneddi yn y tir is oedd wedi cael ei drin.

Yn ystod rhyfel Napoleon roedd y tir wedi'i amgáu'n rhannol i'r chwarelwyr dyfu tatws, tra bod llawer o'r gweundir o'i gwmpas yn fawndir.

Dechreuwyd yr anheddiad yn yr 1840au i ddarparu cartrefi i weithwyr chwarel oedd yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn gerllaw. Prydleswyd lleiniau o dir i weithwyr ar y ddealltwriaeth eu bod yn adeiladu'r tai yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan Stad y Penrhyn ac ar ddiwedd y brydles 30 mlynedd byddai'r tŷ a'r tir yn trosglwyddo'n ôl i'r tirfeddiannwr oni bai y daethpwyd i gytundeb arall.

Gellir ei ystyried yn ffurf gynnar o bentref model, a grëwyd yn yr 1840au - 1860au gan Stad y Penrhyn gan dynnu ar fodel hŷn o dai gyda rhandiroedd sylweddol. Rhagflaenydd pwysig oedd y rhes yn Nhai'r Mynydd, a gynlluniwyd gan Benjamin Wyatt ac a adeiladwyd gan Richard Pennant yn 1798 ac a ddinistriwyd yn ddiweddar.

Er bod y stad yn adeiladu tai chwarelwyr o'r 1790au ymlaen, ymddengys i'r gwaith adeiladu ym Mynydd Llandygái ddechrau pan sefydlwyd Llwybr Main ym 1843, ac yn ddiweddarach Tan y Bwlch ym 1862. Mae'r anheddiad yn gyferbyniad diddorol â'r pentref model stad a adeiladwyd ar yr un pryd yn Llandygái, ger Castell Penrhyn, a'i greu ar gyfer gweithwyr stad. Mae Llandygái yn enghraifft dda o bentref stad a adeiladwyd mewn arddull ddarluniadol, ac wedi'i gynllunio i greu argraff ar yr ymwelydd. Pentref model yw Mynydd Llandygái, a gynlluniwyd mewn arddull werinol, a'i fwriad oedd darparu tir i chwarelwyr ei drin ac i fagu da byw arno.

# 3. Cymeriad yr anheddle

**3.1 Lleoliad**

Saif pentref Mynydd Llandygái oddeutu 2.5km i'r gorllewin o Fethesda, mewn ardal o weundir agored sydd ar uchder o ychydig o dan 300m, yn edrych dros Chwarel y Penrhyn. Mae'n agored i wyntoedd o bob cyfeiriad, gaiff eu lleddfu ychydig gan gysgod coed i'r de orllewin. I'r de mae rhostir Gwaun Gynfi a Pharc Drysgol, a siapwyd gan afonydd Marchlyn a Chaledffrwd, tra i'r gorllewin mae bryn crwn Moelyci. I'r dwyrain mae tirwedd helaeth chwarel y Penrhyn.

**3.2 Cymeriad**

Mae'r anheddiad yn hirsgwar bras, sy'n cynnwys dwy stryd gyfochrog - Llwybr Main i'r gogledd a Than y Bwlch i'r de. Yn y pen gogledd-orllewinol mae'r ffordd rhwng Tregarth a Deiniolen yn ymuno â hwy ac ar y pen de-ddwyreiniol gyda Ffordd Hermon (Ffordd Hermione ar y mapiau cynharach) oedd heb unrhyw adeiladau yn wreiddiol ond sydd bellach yn cynnwys yr eglwys a datblygiadau diweddarach. Nid yw anheddiad Ffordd Hermon wedi'i gynnwys yn yr Ardal Gadwraeth. Mae Tan y Bwlch yn parhau y tu hwnt i'r gyffordd â Ffordd Hermon ac mae'r pedwar pâr o fythynnod ar y darn hwn wedi'u cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r ddwy brif stryd, Tan y Bwlch a Llwybr Main, yn disgyn i lawr o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain gyda grid o randiroedd tenau hir yn rhedeg rhwng y strydoedd. Mae gan fythynnod Tan y Bwlch randir ar draws y ffordd, gydag ardal lai y tu ôl, ac o amgylch y bythynnod. Mae gan fythynnod Llwybr Main lain sengl hirach, wedi'i rannu'n wreiddiol yn rhan hir a byr gan ffens lechi barhaus (crawiau) a ffos. Rhennir y lleiniau oddi wrth ei gilydd ar eu hyd yn y de-ddwyrain gan grawiau (ac i'r G.O. gan waliau cerrig). Adeiladwyd adeiladau allanol o gerrig y tu ôl i'r bythynnod, a gellir eu gweld rhwng y parau o dai. Delweddau 1, 2.

**03**
Golygfa o'r awyr o'r pentref yn dangos y rhostir o gwmpas, a chynllun rheolaidd yr anheddiad.




Dyluniwyd Mynydd Llandygái fel pentref gwasgaredig heb unrhyw ffocws cymdeithasol a phan gafodd ei adeiladu'n wreiddiol, nid oedd ganddo unrhyw wasanaethau, siop, eglwys, neuadd na thafarn.

Mae'r datblygiad diweddarach, a dorrwyd i mewn i'r pedwar rhandir cyntaf ar hyd Ffordd Hermon, yn cynnwys eglwys a chapel, ac mae dau gapel arall i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain o'r anheddle. Adeiladwyd ysgol hefyd ar Ffordd Hermon.

Darparwyd erw o dir ar gyfer pob eiddo, gyda'r rhandir hir yn addas i gadw buwch a'r llain llai o amgylch y tŷ, ar gyfer llysiau. Adeiladwyd adeiladau allanol sylweddol hefyd i'r cefn a gellir gweld enghreifftiau da o'r rhain o hyd, mae'r gorau yn cael eu rhannu rhwng Rhifau 32 a 33.  Delweddau 05, 06.

Byddai toiled allanol hefyd wedi bod yn nodwedd o bob bwthyn ond yr unig enghraifft dda sydd ar ôl yw tu ôl i Rif 7 Llwybr Main.

Adeiladwyd y bythynnod i ddyluniad y stad ac mae'r enghreifftiau gorau wedi'u rhestru. Mae gwahaniaethau bach mewn cymesuredd ac yn lleoliad yr adeiladau allanol. Mae'r bythynnod yn barau o fythynnod dwy ystafell unllawr, ffrynt dwbl, gyda chrog lofft fewnol. Roedd simneiau ar ben pob talcen, a simnai ganolog a rennir. Dilynwyd y dyluniad a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Benjamin Wyatt, Asiant i'r stad, a ddefnyddiodd y bwthyn croglofft rhanbarthol fel sail ar gyfer adeiladau newydd.




**3.3 Dynodiadau**

Saif yr Ardal Gadwraeth oddi mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd ehangach, a hefyd oddi mewn i Dirwedd Hanesyddol Arfon.
Caiff y pedwar ar ddeg bwthyn, tai allanol a'r terfynau canlynol eu rhestru, i gyd yn Radd II.

23405 Rhif 3 Tan y Bwlch
23406 Rhif 4 Tan y Bwlch
23446 Ffiniau Rhifau 3 a 4




23403 Rhif 24 Tan y Bwlch
23445 Adeiladau allanol i Rif 24 Tan y Bwlch
82290 Rhif 25 Tan y Bwlch
23443 Ffiniau i Rifau 24 a 25

23409 Rhif 7 Llwybr Main
23410 Rhif 8 Llwybr Main
23442 Tŷ Bach Rhif 7

23407 Rhif 23 Llwybr Main
23408 Rhif 24 Llwybr Main
23440 Tai Bach Rhifau 23 a 24
23441 Ffin i Rifau 23 a 24
23442 Tŷ Bach Rhif 7




**04**
Edrych i'r dde-ddwyrain tuag at Chwarel y Penrhyn o Dan y Bwlch.

05
Plots are also divided by stone walls.

**06**
Mae'r lleiniau hefyd wedi eu rhannu gan waliau cerrig.

7
Rhifau 3 a 4 Tan y Bwlch

8
Rhifau 5 a 6 Tan y Bwlch

9
Giât wreiddiol Rhif 10 Tan y Bwlch

# 4.0 Disgrifiad o'r Ardal Gadwraeth

Nid yw'r pentref bellach yn gartref i weithwyr y chwarel ac mae pob bwthyn wedi'i ddatblygu mewn rhyw ffordd, o newid bychan mewn ffenestri, i gyrtiau cyflawn o estyniadau. Newidiwyd y bythynnod hynny a ddynodwyd yn Adeiladau Rhestredig cyn eu rhestru ac felly cawsant eu dewis fel yr enghreifftiau gorau oedd ar gael yn hytrach na'u bod yn eu cyflwr gwreiddiol. Mae hyn yn golygu mai dim ond un bwthyn mewn pâr sydd mewn cyflwr rhestradwy, ond mae'r dynodiad yn berthnasol i'r bloc cyfan.

Er bod llawer o fythynnod eisoes wedi'u newid yn sylweddol ar adeg eu dynodi, mae'r newidiadau ers hynny wedi bod yn llawer mwy.

Gan ddechrau o ben Tan y Bwlch, mae gan Rif 1 fynediad wedi'i newid, gyda wal yr ardd wedi'i gosod yn ôl i ddarparu parcio oddi ar y stryd. Dyma'r olygfa gyntaf o'r stryd ac felly mae hyn yn anffodus. Mae gan Rif 2 ardal darmac eang rhyngddo a Rhif 3 gyda'r adeilad allanol wedi'i ddymchwel yn rhannol.

Mae rhifau 3 a 4 wedi'u rhestru ond gyda newidiadau modern. Mae gan Rif 4 bortsh llechi gwreiddiol ond ffenestri UPVC gwyn newydd yn y siâp gwreiddiol, dwy ffenestr yn y to a phwyntiad rhuban. Mae gan Rif 3 y mowldin plastr gwreiddiol ar y drws a'r ffenestr ond does dim simnai. Mae'n ymddangos fel tŷ cwbl ar wahân yn union y tu ôl. *Delwedd 7.*



Mae'r disgrifiad Adeilad Rhestredig yn eu disgrifio fel 'pâr o fythynnod chwarelwr, pob un o gynllun 2 ystafell unllawr gyda llofft, wedi'u halinio o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain. Wedi'u llunio o haenau bras o gerrig nadd o flociau rwbel, wedi'u rendro a'u paentio ar bennau'r talcen, to llechi. Mae gan bob bwthyn ffenestri 3 gwydr gyda siliau llechi ar y naill ochr i fynedfa sydd ychydig i un ochr, pentyrrau annatod a chorn crib a rennir yn y canol rhwng y bythynnod. Ffenestri i'r pennau talcen yn goleuo'r llofftydd a thoeau math 'catslide lean-to' yn y cefn. Mae ffenestri o'r ugeinfed ganrif ar bob ochr i ddrws panelog o'r 20fed ganrif gyda "ffenestr" annatod; mae pentwr pen annatod wedi'i dynnu. Mae estyniad mawr o'r 20fed ganrif yn y cefn'. Mae'r ffiniau mewn cyflwr da, ac wedi'u rhestru yn radd 2 hefyd.

Mae rhifau 5 a 6 wedi eu gor-ymestyn yn ddifrifol, y ddau gydag adenydd uchder mawr yn y cefn a gyda blaengwrt Rhif 6 wedi'i newid i ffurfio mynedfa fwy mawreddog sy'n arwain at adeiladau allanol mawr sy'n ymestyn i gefn y llain, y tu hwnt i'r llinell ddatblygu. Mae garej ddwbl fawr wedi ei hadeiladu'n ddiweddar. Mae'r estyniad yn amlwg iawn gyda goleddf unionsyth i'r to a thair ffenestr Velux fawr. *Delwedd 8.*





Saif adeilad allanol gwreiddiol da yn ochr Rhif 9. Mae ffens lechi wreiddiol yn rhannu'r ddwy ardd flaen, ac mae giatiau haearn gwreiddiol gan y ddwy. *Delwedd 9.*

Mae Rhif 14 wedi'i ymestyn yn helaeth gyda garej ddwbl fawr wedi'i gosod mewn ardal sylweddol o darmac. Mae slabiau pafin




yn nodi'r ardal rhwng y ffordd a'r pyst giât, newid diangen mewn deunyddiau ond yn fwyaf anffodus, ar draws y ffordd, mae maes parcio petryal wedi ei darmacio a'i ymylu. *Delwedd 7.*

Mae'r wal rannu rhwng rhandiroedd Rhif 13 a 14 wedi ei disodli gan ffens wifren ar gyfer rhywfaint o'i hyd. Mae'r wal ar ochr y ffordd wedi ei gostwng yn rhannol ac ar ei phen ceir ffens pyst a rheiliau. Mae gweddill y wal wedi ei thynnu i gyd. Mae'r maes parcio hwn yn ddigon mawr ar gyfer o leiaf 8 cerbyd a dylid ei symud os yw'n bosibl, gan ei fod yn newid cymeriad y ffordd ac yn enghraifft arbennig o wael.

Mae'r cyflegarwch sy'n gysylltiedig â pharcio ceir ar y rhandiroedd i'w weld gan y tresmasiadau llai ond arwyddocaol o hyd ar eiddo cyfagos, gan gynnwys Rhifau 13, 15, 17 18 ac 20.

Gyferbyn â Rhif 18 mae hirsgwar cywas-gedig i barcio sydd y tu ôl i'r wal, trwy giât fferm. Mae'r ardal hon hefyd yn gweithredu fel iard sefydlog gyda tho stabl ar oleddf wedi'i adeiladu yn y gornel. Mae'r iard wedi'i hamgáu â ffensys post a rheiliau. Dim ond simnai ganolog sydd gan Rifau 19 ac 20 ar ôl. Mae'r adeilad allanol rhwng Rhifau 20 a 21 mewn cyflwr da ond gyda 3 o ffenestri to mawr wedi'u hychwanegu. Mae lle parcio bach, llai swyddogol yn bodoli ar ochr arall y ffordd o Rif 20 ond mae wedi golygu tynnu darn mawr o'r wal.

Nid oes gan Rifau 21 a 22 simneiau ond mae gan Rif 21 fynedfa wreiddiol. Fodd bynnag, gyferbyn mae pentwr o rwbel yn lle wal y rhandir.

Mae gan Rif 24 faes parcio gwastad gyferbyn wedi'i balmantu, ar gyfer o leiaf 3 cherbyd. Defnyddir y slabiau pafin hefyd ar ochr y bwthyn, o amgylch garej ac ar gyfer mynediad at gyfres o adeiladau y tu ôl.

Mae'r disgrifiad o'r adeilad rhestredig ar gyfer Rhifau 24 a 25 Tan y Bwlch, a ddangosir fel un yr un mewn parau cyfagos ar fap Cadw, yn un pâr, mae posibilrwydd hefyd bod y ddau bâr yn rhestredig. Mae'r map yn dangos un o bob pâr cyfagos, tra bod y disgrifiad yn awgrymu pâr sengl, mae posibilrwydd hefyd bod y ddau bâr wedi'u rhestru. Mae'r disgrifiad a roddir ar gyfer Rhif 24 fel 'Pâr o fythynnod chwarelwr, pob un o gynllun 2 ystafell unllawr gyda llofft, wedi'u halinio i'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain. Wedi'u llunio o haenau bras o gerrig nadd o flociau rwbel, wedi'u rendro a'u paentio i bennau'r talcen, to llechi. Mae gan bob bwthyn ffenestri 3 gwydr gyda siliau llechi ar y naill ochr i fynedfa sydd i un ochr ychydig, pentyrrau annatod a chorn crib a rennir i'r canol rhwng y bythynnod. Mae ffenestri talcen yn goleuo'r llofftydd a thoeau math 'catslide lean-to' yn y cefn. Mae ffenestri 3-gwydr ar ochr drws hanner gwydrog C20.' Dim ond y bwthyn ar y dde (o'r tu blaen) sydd â ffenestri 3 gwydr. Mae'r simnai pen chwith ar goll. Nid oedd yn bosibl sefydlu cyflwr manwl yr adeiladau allanol rhestredig, ond ymddengys bod y rhai a welwyd mewn cyflwr gwael.

Mae gan Rhif 25 rodfa fach sydd heb ei newid i'r cefn, gyda giât haearn. Mae hwn yn gweithredu fel mynediad i'r drws ffrynt ac nid oes porth blaen mwyach, dim ond llwybr. Mae'r tir i'r ochr wedi cael ei glirio i fod yn ardal furiog o lain caled garw o flaen yr adeiladau allanol.

Mae gan Rif 26 gyntedd gwydr pren tywyll newydd gyda tho ar oleddf, sydd yn lle'r enghraifft flaenorol o do fflat. Mae'r ffenestri diweddaraf o bren tywyll gyda chasmentau sy'n agor o'r top, ac ers asesiad CgMs mae'r gwaith cerrig wedi cael ei ddatgelu. Mae hyn wedi arwain at ffrynt mwy cytûn er bod diffyg trydedd simnai ar Rhif 26 yn dal i fod yn anghydnaws.




**10**
Ardal fawr o darmac a osodwyd gyferbyn â Rhif 14 Tan y Bwlch

**11**
Ardal gyferbyn â Rhifau 26 a 27.

**12**
Y rhandir sy'n gysylltiedig â Rhif 26

Adeiladwyd dau adeilad pren newydd rhwng Rhif 26 a Rhif 27, mae ochr y rhain yn wynebu'r ffordd ac yn gyfochrog â'i gilydd.  Mae'r wal rannu wedi cael ei newid gan ffens bolion, ac mae gwrych conwydd yn cuddio hyn ac adeilad hirsgwar efo to fflat o'r ffordd. Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatblygiad gwyliau. Ymddengys bod rhifau 27 a 28 wedi eu cyflwyno yn gymharol dda ond gyda phyrth gardd ar goll o ochr y ffordd. Mae'r pâr yma wedi'u lleoli ar y ffordd pengaead sy'n ymestyn y tu hwnt i'r gyffordd â Ffordd Hermon.

Mae'r rhan gyferbyn â'r wal wedi cael ei hailadeiladu i ffurfio porth gyda giatiau dwbl. Adeiladwyd sied ac mae'r ardal ar gyfer storio, parcio ac ati. Mae'r ffin â ffordd Hermon yn cynnwys ffens bren adfeiliedig ac yna ffens wifren. *Delwedd 11*

Mae Rhifau 28 a 29 wedi'u moderneiddio gyda nodweddion cyffredin, efo ffenestri bae sgwâr yn mynd am allan a dim ond y simnai ganolog a gadwyd. Mae adeilad allanol da yn parhau i'r ochr o Rif 29. Trawsnewidiwyd y lleiniau gyferbyn yn erddi ac mae'n bosib fod y pâr yma wedi cael eu trosi'n un tŷ.

Mae llwybr troed yn mynd rhwng Rhif 30 a Rhif 31, lled cerbyd ac yn arwain yn syth i ochr bellaf y gwregys cysgod a thu hwnt. Mae'n ffinio gyda chymysgedd o waliau cerrig a chrawiau yn y darn cyntaf, ond mae'r llechen yn ansefydlog iawn. Mae ffensys gwifren yn rhannu'r llwybr o'r gwregys cysgod, sy'n borfa ar hyn o bryd. Ar y pwynt hwn nid yw'n cynnwys coed felly mae'r golygfeydd o'r llwybr yn dda. Gallai casgliad diddorol o sylfeini yn uniongyrchol i'r de-orllewin o'r man lle mae'r trac yn cwrdd â ffin allanol y gwregys lloches fod yn arwydd o anheddiad cynharach.

Mae rhifau 31 a 32 yn ddi-nod ond maent hefyd wedi'u lleihau i simnai ganolog ond mae'r adeilad allanol sydd wedi'i gadw orau rhwng Rhif 32 a Rhif 33. Ar draws y ffordd o Rif 32 mae lloc gwrychog gyda phorth estynedig i garafanau a cheir. Mae hyn yn daclus ac yn anymwthiol ond yn dal i fod yn dresmasiad i'r rhandiroedd.

Mae gan y pâr olaf o fythynnod Rhifau 33 a 34 fynedfeydd ochr i'r gerddi blaen ac mae gan Rif 34 dair ffenestr mwy priodol gydag elfen wydrog.

Mae'r ardal gadwraeth yn gorffen gyda llain Rhif 34 ond mae'r lôn yn parhau i wasanaethu bwthyn deulawr.

Mae gan y rhandiroedd sy'n perthyn i fythynnod Rhif 26 i Rif 34 ffin ogledd-ddwyreiniol fwy afreolaidd, yn rhannol oherwydd y gerddi sy'n gorgyffwrdd o anheddiad diweddarach Ffordd Hermon.
Mae ffin yr ardal gadwraeth yn dilyn trofa tu ôl i anheddiad newydd Ffordd Hermon, ac eithrio'r tai mwy newydd a'u gerddi. Mae'n ail-ymuno â Ffordd Hermon ychydig cyn y gyffordd â Llwybr Main.




Mae tri ar ddeg pâr o fythynnod yn ffinio ochr de-orllewinol Llwybr Main gyda rhandiroedd y tu ôl, wedi'u hisrannu yn adrannau tyfu llysiau a phorfa. Mae'r rhain yn ymestyn i ffin y crawiau gyda lleiniau Tan y Bwlch.

Mae Rhif 26 wedi colli ei randir i ddatblygiad diweddarach. Mae'r pâr wedi cadw'r llain gyda'r crawiau yn rhannu'r ddau. *Delwedd 12.*

Mae Rhifau 23 a 24 wedi'u rhestru ac mae gan Rif 24 ffenestri cwarel gwreiddiol 4 paen a phortsh cerrig a'r ddwy simnai. Yn ddiweddar mae ramp concrid wedi'i osod o'r ffordd sy'n arwain at rodfa gywasgedig. Newidiwyd rhif 23 cyn ei restru.

Mae gan Rif 22 adain gefn newydd gyda'r grib yn uwch na'r drychiad blaen a phwyntio rhuban newydd trwm iawn. Effeithir ar linell y to yn Rhif 21, mae dormer cefn mawr wedi'i hadeiladu trwy gynyddu uchder y grib. Mae'r drychiad blaen wedi cael ei drin yn wael iawn trwy dynnu'r drws ac mae agoriadau'r ffenestri wedi'u hehangu a'u camosod.

Mae gan Rifau 19 ac 20 estyniadau blaen o garreg a tho ar oleddf, mae Rhif 20 ar ffurf bae estynedig ond mae Rhif 19 wedi ymestyn blaen y bwthyn o sawl metr gyda'r

estyniad blaen yn cynnwys drysau Ffrengig.

Mae rhifau 17 a 18 yn wynebu fferm fach Tyddyn Canol. Adeiladwyd adain gefn fawr y tu ôl i Rif 18 ac mae gan wal gardd Rhif 17 gapin concrid wedi'i fowldio.

Mae gan Rifau 15 ac 16 newidiadau i'r wal flaen, mae Rhif 16 wedi'i ailadeiladu ychydig yn uwch a gyda mynedfa ochr. Mae gan Rif 15 golofnau anaddas iawn a pheli concrid



wedi'u gosod ar wal wedi'i rendro â phen fflat. Mae'r drws ffrynt wedi ei newid gyda ffenestr a chodwyd y to i ddarparu ar gyfer estyniad cefn.

Mae rhifau 13 a 14 yn ddi-nod ac eithrio amnewid ffenestr ar gyfer y drws ffrynt ar Rif 13 a blocio hanesyddol y porth blaen. Yn ddiweddar, mae Rhif 14 wedi tynnu pileri



giât anaddas a rheiliau isel, gan adfer y waliau i'w huchder gwreiddiol.

Mae'n bosibl mai Rhif 12 yw un o'r eiddo mwyaf anghydnaws ar y ffordd, gyda ffenestr dormer frown ar yr ochr flaen a'r pwyntiad gorfawr wedi'i baentio'n wyn, sy'n roi effaith ddu a gwyn i'r ffasâd. Mae'r drws wedi ei ddisodli gan ffenestr, mae waliau'r ardd gyda choncrid gwastad ar eu brig. Mae Rhif 11 wedi'i rendro'n fflat, mae'r drws wedi ei newid am ffenestr a thynnwyd y simnai pen. *Delwedd 13.*

Mae Rhif 10 wedi'i gyflwyno'n well, gyda phortsh bach wedi'i ychwanegu at yr ochr. Fodd bynnag, mae'r ffrynt wedi cael ei newid yn gynnil trwy gael gwared ar wal ochr yr ardd flaen. Mae gan Rif 9 ffenestr anffodus iawn sy'n wynebu ffenestr ddormer, un ffenestr flaen fawr ac estyniad ochr ddwy ran o dair hyd y bwthyn. Mae'r simnai ar y pen hefyd ar goll. *Delwedd 14.*

Mae'r pâr nesaf, Rhifau 7 ac 8 wedi'u rhestru. Mae ganddynt eu holl simnai ac mae gan Rif 7 y ffenestri gwreiddiol, heb fariau gwydr mewnol. Mae'r bwthyn hwn wedi cael ei foderneiddio'n ddiweddar ac mae'r plastr addurniadol o gwmpas y ffenestri a'r drws wedi'i dynnu. Mae'r ddwy wal ardd wedi cael eu newid trwy rwystro'r porth blaen a symud y fynedfa i'r ochr. Dywedodd adroddiad CgMs fod gan y bwthyn hwn giât ardd wreiddiol, ond nid yw hyn yn wir bellach. Mae Rhif 8 wedi newid y drws ffrynt gyda thrydedd ffenestr olygfa. Mae'r ddau fwthyn wedi cael eu hymestyn yn arw yn y cefn.

Nid yw Rhif 6 wedi'i gyffwrdd yn ddiweddar, mae olion o bortsh datgymalog ac mae gan y ffenestri blastr o hyd o'u cwmpas. Mae Rhif 5 yn y broses o gael ei foderneiddio ac mae ganddo ddrysau a ffenestri plastig newydd. Mae wedi cadw giât odidog yr ardd ac efallai mai hon oedd yr un y cyfeirir ati yn adroddiad CgMs sy'n gysylltiedig â Rhif 5 yn hytrach na Rhif 7.

Mae'r pâr yma wedi cadw'r elfennau pwysicaf gan gynnwys tair simnai, yn ddiweddar mae Rhif 3 wedi cael ffenestri pren 4 paen wedi'u gosod a drws pren, gyda'r paent wal melyn wedi ei dynnu'n ôl at y garreg gan wella ei edrychiad yn arw. Mae yma estyniad cefn mawr dau gam ac mae'r ail



**13**
Rhif 12 Llwybr Main efo ffenestr dormer

**14**
Rhif 9 Llwybr Main gydag estyniad ffenestr dormer

**15**
Rhif 2 Llwybr Main gydag estyniad newydd

**16**
Rhif 1 Llwybr Main

**17**
Rhif 1 Llwybr Main

ran ohono braidd yn uchel.

Mae Rhif 2 wedi'i drosi'n ddiweddar i eiddo gwahanol iawn gydag estyniad mawr o garreg a dwy ffenestr wedi'u ychwanegu at yr ochr, gyda llinell y to yn camu i lawr a bondoeau crog amhriodol. Nid yw'r portsh carreg mawr o'r un graddfa â bwthyn o'r math hwn ac mae wedi helpu i foniddigeiddio'r eiddo hwn. *Delwedd 15*

Mae Rhif 1 wedi colli ei ddrws ac mae mynediad trwy giât a llwybr gardd, i ddrws ochr. Mae estyniad cefn yn ymwthio i'r ochr, gyda tho 'catslide' hir. Mae hyn yn anffodus gan fod ganddo ystafell haul ychwanegol, sy'n fwy na'r bwthyn ei hun ac yn nodwedd flaenllaw o'r gornel gyda'r ffordd i Ddeiniolen. Mae'r ymyrraeth weledol hon yn cael ei chymhlethu gan fynedfa gerbydau ochr a waliau wedi'u mewnoli, i'r rhandir lle mae garej uchel a lloc cŵn wedi'u hadeiladu mewn ardal fawr o lain caled. Mae diffyg unrhyw waith plannu i dawelu golygfa'r ychwanegiadau yn ei wneud yn fwy amlwg. *Delweddau 16 a 17*


16


17

# 5.0 Gwelliannau a argymhellir

O'r holl welliannau a awgrymwyd yn arfarniad CgMs Cyf, ni aed ati i roi sylw i'r un ohonynt ac eithrio nad yw hi'n ymddangos bellach fod gan Gwynedd Skips bresenoldeb yn yr anheddiad.

Ar y gyffordd rhwng Ffordd Hermon a Than y Bwlch, mae'r gwelliannau ansensitif ar y ffyrdd yn parhau, gan gynnwys wal fodern onglog sy'n torri cornel y rhandir cyntaf. Mae'r ffin wifren rhwng y rhandiroedd a'r ffordd yn anghydnaws. Yn ddiweddar, tynnwyd y gwrych leylandii oedd yn gordyfu ar y ffin hon ac mae hynny'n welliant. Os yw'n bosibl, dylid gwella'r gornel hon gyda deunydd mwy sensitif. Efallai bod y llinell derfyn wreiddiol wedi cael ei hystyried yn berygl i gerbydau modur, ond mae'r driniaeth anghydweddol hon yn enghraifft wael.

Mae llawer o drigolion mewn ardaloedd cadwraeth sydd ddim yn hollol ymwybodol eu bod yn byw mewn ardal o'r fath. Ymddengys nad oes llawer o ohebiaeth wedi bod gyda'r preswylwyr ers sefydlu'r ardaloedd ac yn aml nid yw gohebiaeth gynnar wedi ei throsglwyddo i'r perchnogion mwy diweddar. Cyfrannodd hyn at fyrdd o estyniadau anffodus, ffenestri a drysau amhriodol a diffyg dealltwriaeth o gymeriad hanfodol yr ardal.

Felly, mae cyfranogiad y gymuned yn hollbwysig i lwyddiant ardal gadwraeth. Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi canllawiau cynllunio i berchnogion gan nodi'n glir beth sy'n dderbyniol mewn ardal gadwraeth, yn enwedig ar gyfer drysau a ffenestri. Yn y rhan fwyaf o achosion, newidiwyd y ffenestri cyn i'r ardal gael ei dynodi, ond ers hynny mae llawer o'r ffenestri hyn wedi'u newid, yn aml sawl gwaith. Mae hwn yn gyfle i dywys perchnogion eiddo at ddewis arall mwy derbyniol. Mae'r rhan fwyaf o ffenestri bellach yn rai UPVC ac mae hyn yn ymddangos fel y norm er bod y ffenestri hyn yn ymyrraeth amlwg mewn hen adeilad. Nid yw'r deunydd yn amgylcheddol gyfeillgar, ac mae'n dirywio o fewn ychydig flynyddoedd. Y mater pwysicaf i fynd i'r afael ag ef pan fydd ffenestri yn cael eu newid yw cadw dimensiynau'r agoriad gwreiddiol a'r patrwm gwydro. Nid yw'r rhan fwyaf o berchnogion yn ymwybodol o arwyddocâd eu dewisiadau,

felly byddai canllawiau'n ddefnyddiol yma.

Mae datblygiad helaeth bythynnod, yn enwedig ym mhen gogledd-orllewinol Llwybr Main, wedi arwain at newid nodedig mewn cymeriad, boneddigeiddio a threfoli'r anheddiad. Ni ddylid annog hyn, yn benodol drwy beidio â chaniatáu mewnlenwi rhwng parau o fythynnod. Mae datblygiad y tu ôl i eiddo, er nad yw'n ymwthiol mewn ffordd wahanol yn dinistrio patrwm golygfa'r stryd.

Mae llawer o ddrysau blaen wedi cael eu blocio, gan fynd â'r mynediad i'r ochr, a newid ffrynt y stryd. Mae cael gwared ar simneiau yn arbennig o niweidiol i batrwm golygfa'r stryd fel mae gorffeniadau wal anaddas. Caniateir estyniadau, pan nad ydynt yn weladwy o'r stryd o fewn ardal gadwraeth ond mae llawer yn gwbl weladwy, gan newid ffrynt bach efo dwy ffenestr a drws i siapiau cwrt cymhleth. Unwaith eto, gall polisïau clir a ddosberthir i'r meddianwyr helpu yma, fel arall fe'u hanwybyddir neu, os gwrthodir caniatâd cynllunio, byddant yn dal dig.

Gwnaed peth ymdrech i atal datblygiad y rhandiroedd ond ni fu hyn yn gwbl lwyddiannus wrth i fannau parcio tarmac newydd barhau i gael eu hadeiladu.

Mae canllaw cynllunio a luniwyd fel dogfen gynllunio atodol, a drafodwyd gan y gymuned ac y gweithredwyd arni, wedi cael ei hawgrymu o'r blaen ac mae angen ei gweithredu fel bod bodolaeth yr ardal gadwraeth yn cael ei gymryd o ddifri. Byddai grantiau i gefnogi argymhellion yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau cydymffurfiaeth a dylid anelu'r rhain er mwyn cadw'r gosodiad, nodweddion unigryw, waliau terfyn, crawiau a giatiau llechi, adeiladau allanol, a chyfanrwydd y rhandiroedd.

Yn arfarniad CgMs Ltd awgrymwyd y dylid adfer y gorchudd coed ar y gwregys cysgod y tu ôl i Tan y Bwlch i'w hyd llawn. Gellid sicrhau bod grantiau ar gael ar gyfer ailblannu'r gwregys cysgod yn sympathetig ac anogir plannu coed addas. Efallai y bydd yn bosibl sefydlu prosiect coetir cymunedol.

Ni ddylid caniatáu i ddatblygiad Ffordd Hermon gorgyffwrdd ymhellach â'r rhandiroedd. Fodd bynnag, mae'r anheddiad presennol yn dod yn fwy cyfunol gydag estyniadau sy'n cysgodi'r bythynnod ar Lwybr Main yn enwedig Rhifau 25 a 26, ac ni ddylid annog hyn.

Mae'r rhandiroedd yn gordyfu gyda choed. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y lleiniau deheuol ac mae'n broblem sy'n anodd delio â hi gan fod plannu coed yn cael ei annog yn gyffredinol a choed o fewn ardal gadwraeth yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, yma mae tyfiant y coed yn cuddio patrwm hanfodol yr anheddiad a'r ffiniau rhwng lleiniau. Mae'n anodd gwybod sut y gellir defnyddio'r lleiniau heddiw gan fod y parcio a garddio amlwg, yn niweidiol i oroesiad y gosodiad. Maent yn rhy fach i'w defnyddio fel porfa ac eithrio i ferlod a da byw sy'n cael eu cadw fel hobi. Fodd bynnag, mae'r cymeriad yn cael ei erydu mewn ffyrdd bach, gan ffiniau nad ydynt yn cael eu cadw, gan bentyrrau rwbel ac yn bennaf gan barcio ceir. Mae'r ffiniau yn arwyddocaol wrth ffurfio cymeriad yr anheddiad ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cynnal yn eu ffurf wreiddiol.

# 6.0 Newidiadau a argymhellir i'r Ardaloedd Cadwraeth

Dylid cynnwys y llain gysgodi (Parc Tan y Bwlch) y tu ôl i Dan y Bwlch yn yr Ardal Gadwraeth gan ei fod yn rhan annatod o ddyluniad yr anheddiad ac yn dal i ddarparu cysgod angenrheidiol iawn. Yn adroddiad CgMs dywedwyd y gallai hyn achosi problemau oherwydd y byddai conwydd o ansawdd isel sy'n bodoli eisoes yn cael ei orchuddio gan orchymyn cadw coed.

Fodd bynnag, byddai'r rhain yn agored i wastraff naturiol a gellid eu disodli gan fathau mwy addas pan fo angen. Byddai'r fantais o ailsefydlu gorchudd coed cyflawn yn llawer mwy nag unrhyw broblemau esthetig a achosir gan goed conwydd sydd wedi'u lleoli'n wael*. Delwedd 18*

# 7.0 Ffynonellau


Cadw, nd Disgrifiadau o Adeiladau Rhestredig

CgMs Ltd, Mynydd Llandygái, Gwerthuso Cymeriad yr Ardal Gadwraeth, N D.

Fisher, J., 1917 Tours in Wales (1804-1818) gan Richard Fenton.

Haslam, R., Orbach, J., Voelker, A., 2009 The Buildings of Wales: Gwynedd.

Hayman, R., 2017 Bethesda. An Urban Character Study for Gwynedd Council

Hughes, H., and North, H. L., 1924 The Old Churches of Snowdonia

Jean Lindsay, 1974 North Wales Slate Industry

John Ll. Williams a Lowri W. Williams, Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen https://hanesdyffrynogwen.wordpress.com/





18
Fodd bynnag, byddai'r rhain yn agored i wastraff naturiol a gellid eu disodli gan fathau mwy addas pan fo angen. Byddai'r fantais o ailsefydlu gorchudd coed cyflawn yn llawer mwy nag unrhyw broblemau esthetig a achosir gan goed conwydd sydd wedi'u lleoli'n wael.

Gwynedd Archaeological Trust
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RT
Ffon: 01248 352535. Ffacs: 01248 370925. email:gat@heneb.co.uk